| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Dylan Thomas - Grid Gwir / Gau |
| Disgrifiad: | Tasg darllen wedi'i ffocysu i ddarganfod mwy am Dylan Thomas |
| Blynyddoedd: | CA2 |
| Linc i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: | **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd.**<br>***Darllen a deall:**<br>Bl3:<br>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun<br>• dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant<br>• cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol<br>Bl4:<br>• nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau<br>• dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth.<br>Bl5:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau<br>Bl6:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un pwnc<br>***Ymateb a dadansoddi:**<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu<br>Bl4:<br>• dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau |
| Offer angenrheidiol: | • KS2_ReadingActivity1_TrueFalseGrid_Cym<br>• KS2_ReadingActivity_Timeline_Cym |
| Dull: | • Cyflwynwch y Grid Gwir / Gau ynglŷn â Dylan Thomas.<br>• Dylai'r dysgwyr lenwi'r daflen gan roi beth maent yn ei gredu sy'n wir neu'n gau.<br>• Yr athro yn cyflwyno'r cyflwyniad PowerPoint ar Dylan Thomas a gallant roi copi o'r testun ar y byrddau.<br>• Y dysgwyr yn llenwi ail hanner y daflen gan roi'r wybodaeth gywir i mewn os oedd y gosodiadau'n rhai gau. |
| Gweithgareddau ymestynnol: | Gall y dysgwyr ddod o hyd i bartner a chymharu eu hatebion. Oedd rhai o'r atebion wedi eu synnu? Pam roeddent yn credu iddynt gael rhai yn anghywir? |

| | |
|---|---|
| | Gall y dysgwyr wneud ymchwil ar-lein i ddarganfod mwy o ffeithiau am Dylan Thomas. |
| Dolenni perthnasol: | Gŵyl Dylan Thomas 100<br>http://dylanthomas100.org/<br><br>Safle'r BBC am Dylan Thomas<br>http://www.bbc.co.uk/cymru/bywyd/safle/pobl/tudalen/dylan_thomas.shtml<br><br>Cwis Saesneg safle'r BBC<br>http://www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/famouspeople/dylan_thomas/ |
| Addasu ar gyfer oedrannau eraill: | Gellid addasu'r grid i'w wneud yn anos i ddysgwyr hŷn drwy roi mwy o wybodaeth ynddo. |